# PAPURAU BUSNES

## 24 Tachwedd 1999

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

**Cynigion a gyflwynwyd ar 17 November 1999**

Nicholas Bourne, Canolbarth a Gorllewin Cymru

Christine Humphreys, Gogledd Cymru

Janet Davies, Gorllewin De Cymru

Brian Hancock, Islwyn

Gareth Jones, Conwy

Richard Edwards, Preseli Penfro

Val Feld, Dwyrain Abertawe

John Griffiths, Dwyrain Casnewydd

Karen Sinclair, De Clwyd

Mae'r Cynulliad yn penderfynu penodi cynghorydd annibynnol i'r Cynulliad ar Safonau Ymddygiad o dan drefniadau i'w gwneud gan y Llywydd, a bydd y trefniadau hynny yn unol ag egwyddorion Cod Ymarfer y Cynulliad ar Benodiadau Cyhoeddus. "

**( NDM133VB )**

**Andrew Davies ( *Gorllewin Abertawe* ) ;**

Cynnig bod y Cynulliad yn cydnabod arwyddocâd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol chwaraeon, cyfraniad chwaraeon at iechyd a lles pobl Cymru ac felly'n cefnogi'r hyn a amlinellir yn nogfen y Cyngor Chwaraeon "Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru".

(Anfonwyd copi o’r strategaeth at bob Aelod o’r Cynulliad gan Gyngor Chwaraeon Cymru ddiwedd mis Mai. Mae’r ddogfen i’w gweld hefyd ar wefan y Cyngor Chwaraeon. Y cyfeiriad yw: www.sports-council-wales.co.uk)

**( NDM134VB )**

**Andrew Davies *( Gorllewin Abertawe* ) ;**

Cynnig bod y Cynulliad, drwy weithredu o dan adran 62(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn dirprwyo’i swyddogaethau o dan Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyng-Wladol) 1999, yn amodol ar unrhyw benderfyniad arall gan y Cynulliad, i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad."

**( NDM135VB** )

**Andrew Davies ( Gorllewin Abertawe ) ;**

Cynnig bod y Cynulliad yn pendefynu penodi David Melding (Ceidwadwyr) yn lle Nicholas Bourne (Ceidwadwyr) ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac ethol David Melding yn Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw. ( **NDM136VB )**

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 18 Tachwedd 1999

## NDM134VB

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru) ;**

Ar ôl y geiriau "Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru" ychwaneger:

"I’r perwyl hwnnw, mae’r Cynulliad hwn yn galw am adeiladu pwll nofio maint Olympaidd yn ardal Canol De Cymru yn lle’r *Empire Pool*, sydd wedi’i ddymchwel."

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 19 Tachwedd 1999

## NDM134VB

**1. Gareth Jones (Conwy);**

Ar ôl y gair Cynulliad yn y llinell gyntaf, rhodder i mewn:

"yn penderfynu cadw a datblygu chwaraeon mewn ysgolion fel rhan o’r Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn annog plant i gymryd rhan drwy gydol eu hoes, ac"

**2. Christine Humphreys (Gogledd Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod (rhodder y gwelliannau):

"At hyn, y mae’r Cynulliad hwn yn rhannu pryderon Cyngor Chwaraeon Cymru am ddiogelwch plant sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon, ac yn cynnig y dylid ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru a chyrff chwaraeon eraill am greu cofrestr o hyfforddwyr chwaraeon cydnabyddedig.

**3. Christine Humphreys (Gogledd Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod (rhodder y gwelliannau):

"Yn benodol, y mae’r Cynulliad hwn:

*yn croesawu pwyslais y Strategaeth ar gyflwyno i blant yr ystod ehangaf posibl o chwaraeon, ac yn awgrymu y dylai hyn gynnwys pwyslais teg ar chwaraeon ar gyfer unigolion yn ogystal â rhai ar gyfer timau

*yn rhannu pryderon Cyngor Chwaraeon Cymru bod y rhai sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yng nghefn gwlad neu ar y dwr yn aml yn gorfod defnyddio eu ceir i deithio i’r fath weithgareddau, ac yn cynnig y dylid edrych ar hyn fel rhan fel unrhyw drafodaethau ar ddatblygu trafnidiaeth integredig yng Nghymru

*yn croesawu’r ymroddiad yn y Strategaeth i leihau’r nifer o bobl sy’n cefnu ar chwaraeon trwy gynyddu’r ganran o bobl ifanc sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon, ond yn cynnig y dylid edrych hefyd ar sut y gellir denu mwy o bobl hyn i gymryd rhan mewn chwaraeon o’r newydd."